**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rajesh Nair
Prif Weithredwr
Tata Steel UK

19 Mawrth 2024

Annwyl Rajesh

## Ffyrnau Golosg Morfa

Rwy'n ysgrifennu ynghylch cyhoeddiad Tata Steel UK am roi'r gorau i weithrediadau yn Ffyrnau Golosg Morfa o ddydd Mercher 20 Mawrth o ganlyniad i ddirywiad sylweddol mewn sefydlogrwydd gweithredol. Fel rhan o waith parhaus y Pwyllgor ar ddyfodol dur Cymru, hoffwn ofyn am fanylion ac eglurhad pellach gennych chi. A allwch ymateb i'r pwyntiau canlynol os gwelwch yn dda?

- Mae'r wasg yn adrodd y bydd tua 200 o weithwyr yn cael eu heffeithio. Ydy'r rhif hwnnw'n gywir? A allwch ddweud wrthym a fydd y gweithlu a gyflogir yn y ffyrnau golosg a'r ffatri sgil-gynhyrchion gerllaw yn cael eu hadleoli i rolau eraill, ac a fydd lle iddynt gael eu cyflogi i ddadgomisiynu'r ffyrnau golosg?
- A allwch gadarnhau y bydd Tata nawr yn mewnforio golosg i gefnogi ffwrnais chwyth 5 ac, os felly, am ba hyd rydych chi'n rhagweld mewnforio golosg? Sut rydych chi'n disgwyl i'r datblygiad hwn effeithio ar weithrediad ffwrnais chwyth 5?
- A allwch chi gadarnhau eich amserlenni disgwyliedig ar gyfer dod â gweithrediadau i ben yn y ffatri sgil-gynhyrchion sydd gerllaw y ffyrnau golosg?
- Mae'r undebau wedi dweud, er eu bod yn ymwybodol bod y ffyrnau golosg mewn cyflwr gwael, nad oedd Tata wedi dweud mewn trafodaethau diweddar eu bod mewn perygl o gau'n fuan. Mae Unite hefyd yn honni bod Tata wedi dweud wrth yr undebau yn ddiweddar ei fod yn gobeithio cynyddu eu capasiti yn y dyfodol agos. Sut y byddech chi'n ymateb i'r pwyntiau hyn?
- Mae Tata wedi dweud y bydd y ffyrnau golosg yn cau oherwydd pryderon am eu sefydlogrwydd gweithredol. A allwch chi ddweud wrthym pa rôl roedd ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ei chwarae yn eich penderfyniad i gau'r ffyrnau golosg, ar ôl i'r rhain gael eu codi gan yr undebau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Chwefror?

- Sut y byddech chi'n ymateb i'r sylwadau gan yr undeb Unite yn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r undeb ar 29 Chwefror mai'r diffyg buddsoddiad yn y ffyrnau golosg, dros y 15 mlynedd diwethaf, sydd wedi arwain at ei ddirywiad i'r sefyllfa fel y mae nawr?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg